## CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2016 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Bill Cowie, Ann Davies (Is-Gadeirydd), Stuart Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Rhys Hughes, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler (Cadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Barry Mellor, Win Mullen-James, Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Barbara Smith, David Smith, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

### HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Pennaeth Dros Dro Asedau a Cyllid (JG), Prif Swyddog Cyllid (RW), Rheolwr Rhaglenni – Caffael (TB) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW).

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ian Armstrong, Jeanette Chamberlain-Jones, Meirick Davies, Richard Davies, Colin Hughes, Hugh Irving, Jason McLellan, Bob Murray, Peter Owen, Gareth Sandilands a/ac Bill Tasker

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Huw Williams gysylltiad personol yn Eitem Rhif 9 – Strategaeth Rheoli Trysorlys.

Datganodd y Cynghorwyr Bobby Feeley, Merfyn Parry a Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn Eitem Rhif 10 – Cynllun Cyfalaf.

Ar y pwynt hwn nododd y Cadeirydd bod yr Aelodau'n anfon eu dymuniadau gorau at y Cynghorydd Richard Davies, oedd yn anffodus, yn yr ysbyty.
Mynegwyd cydymdeimlad hefyd tuag at y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies wedi iddo golli ei chwaer.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd bod dau fater brys:

(i) Gofynnodd y Cynghorydd Joan Butterfield am gael trafod absenoldeb aelod ar ddiwedd y cyfarfod. Cytunwyd ar hyn.

(ii) Nododd yr Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant, y Cynghorydd Bobby Feeley bod y Cyngor wedi arwyddo Datganiad Dulyn yn 2015 oedd yn dangos ymrwymiad i holl hawliau ac anghenion ein pobl hŷn. Cyflwynwyd y Datganiad wedi ei arwyddo, oedd wedi ei gynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg, i Gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Gwyneth Kensler er mwyn ei arddangos yn nerbynfa Neuadd y Sir.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 29 Ionawr 2016 ac 11 Chwefror 2016 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhestr o ymrwymiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2016.

<u>Materion yn codi</u>

Tudalen 8, Eitem 5 – Cadarnhaodd y Cynghorydd Alice Jones ei bod wedi derbyn ateb gan Simon Dean o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â'r dystiolaeth o ofal gwael a roddwyd i rai cleifion yr oedd wedi ei ddarparu.

Gofynnodd y Cynghorydd Alice Jones hefyd am ddiweddariad ar ddyfodol Tawelfan yn ogystal â'r ddarpariaeth iechyd meddwl yn Ysbyty Frenhinol Alexandra, y Rhyl.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod diweddariad ynglŷn ag Ysbyty Frenhinol Alexandra wedi ei roi i Aelodau yn dilyn cyfarfod diweddar gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd wedi dod i'r canlyniad nad oeddynt yn barod i gychwyn y prosiect gan nad oedd cynllun busnes prosiect yn ei le eto. Cadarnhaodd swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ymrwymiad i Ysbyty Frenhinol Alexandra ac roedd cyllideb wedi ei dyrannu.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau bod Swyddogion o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bwriadu mynychu Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ddydd Iau 25 Chwefror, 2016 er mwyn trafod datblygiad yr Ysbyty Cymunedol yn y Rhyl a byddai Aelodau'n cael cyfle i ofyn cwestiynau yn y cyfarfod hwnnw.

Tudalen 9 – Nododd y Cynghorydd Eryl Williams bod y pwynt bwled cyntaf yn nodi bod amryw o awgrymiadau wedi eu codi yn y sesiynau cyllid blaenorol. Mynegodd y Cynghorydd Williams farn y dylai'r awgrymiadau fod wedi eu nodi er mwyn i Aelodau fod yn ymwybodol o beth oeddynt.

Tudalen 11 – Ymholodd y Cynghorydd Eryl Williams ynghylch y swm o doriadau a ddisgwylir i'r grantiau. Gofynnodd y Cynghorydd Williams pe gallai'r aelodau dderbyn rhestr o'r holl grantiau a oedd yn mynd i gael eu derbyn gan gynnwys y rheiny oedd yn mynd i gael eu torri.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid y byddai crynodeb fanwl o'r adroddiad cyllido yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cabinet. Byddai'r grant gorfodi unigol yn cael ei leihau, a byddai lleihad hefyd yn y grant gwella addysg. Doedd rhai grantiau heb eu cyhoeddi eto.

Eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd y Cyngor eto wedi derbyn gwybodaeth am bob grant. Roedd posibilrwydd na fyddai rhai yn cael eu cyhoeddi hyd nes y flwyddyn ariannol newydd. Unwaith bydd yr holl wybodaeth wedi ei gasglu, caiff y wybodaeth ei basio ymlaen at yr holl Aelodau.

Ategodd y Cadeirydd bod y Cynghorydd Eryl Williams wedi cynnig bod yr holl Gynghorwyr yn derbyn rhestr o grantiau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn ogystal ag unrhyw doriadau sydd wedi eu cynnig. Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Martyn Holland. Cododd pawb eu dwylo i gytuno â hynny'n unfrydol.

Nododd y Prif Swyddog Cyllid bod cyllid grant wedi ei drafod yn y Gweithdy Cyllid ym mis Tachwedd 2015 oedd yn cynnwys rhestr gyfredol o'r holl grantiau. Byddai'r rhestr grantiau yn cael ei ddiweddaru a'i anfon at yr holl Gynghorwyr.

Tudalen 12, Eitem 8 – Nododd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts nad oedd y drafodaeth ystyrlon a gafwyd wedi cael ei hadlewyrchu'n gywir yn y cofnodion. Cynigiodd addasiad er mwyn adlewyrchu beth oedd wedi cael ei ddweud yn Siambr y Cyngor ar y pwnc hwnnw.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd nad oedd y cyflwyniad a roddodd wedi ei gwblhau gan fod yr Aelodau wedi gofyn i'r eitem gael ei gohirio er mwyn cael trafodaeth ddyfnach.

Eglurodd y Cynghorydd Stuart Davies bod y Cyngor, yn y flwyddyn 2010, wedi trafod y dull o gofnodi a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer yr holl gyfarfodydd. Gan fod sylwadau yn cael eu derbyn gan aelodau ynghylch y dull cofnodi, awgrymodd bod hyn yn cael ei ddadansoddi ar gyfer diweddariad y byddai Aelodau'n ei ffafrio.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd bod dull o gofnodi'r Cyngor wedi ei gytuno arno yn 2010, ac o'r herwydd, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Mai 2016. Pe byddai unrhyw newidiadau yn cael eu hargymell, byddent yn cael eu hymchwilio.

Ar y pwynt hwn manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i holl glercod y cofnodion am eu gwaith caled.

Tudalen 13 – Gofynnodd y Cynghorydd Cefyn Williams am ddiweddariad yn dilyn y Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd ynghylch yr Hawl i Brynu.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y byddai'n holi am ddiweddariad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau dros dro ynghylch yr achos busnes.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2016 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.*

## 6 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Martyn Holland y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

"Mae Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn credu y dylai'r sir ddarparu gwe ddarllediadau o holl gyfarfodydd y Cabinet ac Archwilio yn y dyfodol, er mwyn gwella canfyddiad y cyhoedd o'r Cyngor Sir".

Ar yr adeg yma, nododd y Cynghorydd Martyn Holland y dylid addasu ychydig ar y Rhybudd o Gynnig fel ei fod yn nodi "... darparu gwe ddarllediadau o holl gyfarfodydd y Cabinet, Archwilio a Phwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol a gynhelir yn Neuadd y Sir, Rhuthun".

Cafwyd trafodaeth ar y mater a nododd Aelodau nad o un lleoliad yn unig y dylid gwe ddarlledu cyfarfodydd, ond ledled y sir.

Eglurodd yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai, y Cynghorydd Barbara Smith, bod gwe ddarlledu wedi ei drafod cyn cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig. Byddai cyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer gwe ddarlledu yn dod i ben ym mis Mehefin 2016 ac wedi hynny byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu am y gost.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn asesu'r holl opsiynau sydd ar gael. Yn y man cyntaf Ystafell Gynadledda 1A ac ad-drefnu Siambr y Cyngor. Byddai cost sylweddol i ddarlledu o bob lleoliad. Byddai'r eitem yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Moderneiddio ac adroddiad yn cynnwys costau pob opsiwn wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn er mwyn i'r Aelodau ei ystyried.

Cynigiodd y Cynghorydd Eryl Williams bod adroddiad yn cynnwys yr holl opsiynau sydd ar gael a'u costau yn cael ei gyflwyno yn ôl i'r Cyngor Llawn yn dilyn cyflwyniad i'r Bwrdd Moderneiddio. Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd David Smith.

***PENDERFYNWYD*** *bod y mater o We ddarlledu cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Moderneiddio, yna bod adroddiad yn cynnwys yr holl opsiynau yn ogystal â'r costau llawn yn cael ei gyflwyno yn ôl yn y Cyngor Llawn.*

## 7 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Dewi Owens y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn.

"Mae Cyngor Sir Ddinbych

- Yn gwerthfawrogi gwaith Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.
- Yn mynegi pryder dros symud adnoddau o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru i Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru
- Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu er mwyn gwarchod annibyniaeth Cynghorau Iechyd Cymuned unigol Cymru".

Yn dilyn trafodaeth cynigwyd addasiad gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts bod y pwynt bwled cyntaf yn cael ei gytuno arno ond y dylid gohirio'r ail a'r trydydd pwynt bwled hyd nes byddai Cyngor Iechyd Cymuned yn rhoi cyflwyniad yng nghyfarfod Briffio'r Cyngor oedd i'w gynnal ar 7 Mawrth, 2016. Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Raymond Bartley.

***PENDERFYNWYD*** *bod Aelodau yn:*

- *Gwerthfawrogi gwaith Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.*
- *Cytunwyd gohirio:*
    - *Mynegi pryder dros symud adnoddau o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru i Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru, a*
    - *Galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu er mwyn gwarchod annibyniaeth Cynghorau Iechyd Cymuned unigol Cymru".*

  *hyd nes byddai cyflwyniad wedi ei roi gan Gyngor Iechyd Cymuned yng nghyfarfod Briffio'r Cyngor ar 7 Mawrth, 2016.*

## 8 TRETH Y CYNGOR

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill Adroddiad Treth Cyngor 2016/17 a Materion Perthnasol (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Tynnodd y Cynghorydd Thompson-Hill sylw arbennig at:

- Brif nodweddion y gyllideb fel y cafodd ei chymeradwyo ar 26 Ionawr 2016
- Sylwadau'r Prif Swyddog Cyllid ar gryfder yr amcangyfrifon cyllidebol
- Dadansoddiad o'r praeseptau gan Gynghorau Tref/Cymuned a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, ac
- Argymhellion er mwyn gosod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2016/17.

Yn dilyn trafodaeth:

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn unfrydol:*

*(i) yn nodi ei bod yn ofynnol i'r Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Bilio i ystyried y praeseptau a dderbyniwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Dinas/Tref/Cymuned a datgan lefelau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/2017.*

*(ii) yn cymeradwyo'r argymhelliad bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17, yn unol ag Adrannau 32 i 34 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a'r Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fel adran 3 Atodiad A.*

*(iii) yn cymeradwyo’r argymhelliad bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17, yn unol ag Adrannau 34 (2) i 36 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel Atodiad A adran 4.*
*(iv) yn cymeradwyo bod symiau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau wedi eu dangos yn Atodiad C.*
*(v) yn cymeradwyo bod lefel y disgownt ar gyfer Dosbarth A, B ac C fel y rhagnodir o dan y Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarth Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 yn cael eu gosod ar sero ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/2017 trwy fod yn dymor y Cyngor hwn gyda'r cafeat bod hyn yn ddibynnol ar ddim newidiadau i Ddeddfwriaeth neu amodau lleol.*

**9 STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau, yr Adroddiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (a ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) ar gyfer 2016/17 a gosod Dangosyddion Darbodus 2016/17 hyd at 2018/19.

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli Trysorlys yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r DSRhT a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol.

Mae'r DSRhT yn dangos sut bydd y Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn gosod polisïau ar gyfer gweithredu swyddogaeth Rheoli’r Trysorlys (RhT). Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu effaith debygol y Cynllun Corfforaethol ar y strategaeth hon ac ar y Dangosyddion Darbodus.

Ystyriodd y Cyngor yr adroddiad ac yn dilyn trafodaeth -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn cymeradwyo:*
*(i) Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2016/17 a fanylir yn Atodiad 1 yr adroddiad.*
*(ii) Gosod Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2016/17. 2017/18 a 2018/19 a fanylir yn Atodiad 1 Ychwanegiad A yr adroddiad*
*(iii) Y Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw fel y manylir yn Atodiad 1 Adran 6 yr adroddiad.*

**Ar y pwynt hwn (11.22 am) cafwyd egwyl o 20 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.42 a.m.**

**10 CYNLLUN CYFALAF**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr adroddiad ar Gynllun Cyfalaf 2015/16 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i ddarparu’r

wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch y Cynllun Cyfalaf a ddiweddarwyd, gan gynnwys prosiectau mawr a'r Cynllun Corfforaethol.

Aeth â’r aelodau drwy'r adroddiad gan dynnu sylw at yr adrannau canlynol -

- Crynodeb o gyllid cynllun cyfalaf
- Crynodeb o gynllun cyfalaf gan Bennaeth Gwasanaeth
- Manylion amcangyfrifon cynllun
- Diweddariad ar brosiectau cyfalaf mawr
- Manylion argymhellion gan y Grŵp Buddsoddi Strategol
- Bidiau Cyfalaf a argymhellir i'w cymeradwyo
- Crynodeb o Achosion Busnes ar gyfer buddsoddi yn Ardal Gynradd Rhuthun.

Fis Chwefror 2015 oedd y tro diwethaf i’r Cynllun Cyfalaf gael ei adrodd i’r Cyngor. Roedd diweddariadau misol wedi eu rhoi i’r Cabinet. Mae'r Cynllun Cyfalaf amcangyfrifedig bellach yn £46.9 miliwn. Mae'r Cynllun wedi cael ei ddiweddaru ychydig ers adrodd arno i'r Cabinet ar 16 Chwefror 2016.

Ymatebodd y Cynghorydd Thompson-Hill i gwestiynau a godwyd ynghylch gwahanol agweddau ar y Cynllun Cyfalaf a dyraniadau penodol, gan gynnwys cynnydd gyda gwahanol gynlluniau. Roedd prif feysydd trafod yn canolbwyntio ar y canlynol -

- Atal Llifogydd – a fyddai Llanelwy yn cael ei gynnwys o dan “Dinbych ac eraill”. Cadarnhawyd y byddai’r wybodaeth yma’n cael ei ganfod ac yn cael ei anfon at Gynghorwyr.
- Datblygiad Harbwr Y Rhyl – roedd arian yn cael ei ddal yn ôl ar gyfer delio gyda mân broblemau yn dilyn cwblhau’r prosiect.
- Gwelliant Tai Gorllewin Y Rhyl – byddai mwy o wybodaeth yn cael ei ganfod a’i anfon at Gynghorwyr.
- Pontydd – roedd nifer o bontydd oedd angen gwaith gwella ar draws y sir. Cadarnhaodd y Cynghorydd Martyn Holland y byddai’n cyflwyno ffurflen gynnig ar gyfer trafod y mater hwn yn y Pwyllgor Archwilio.
- Gofynnod y Cynghorydd Eryl Williams pe gellid nodi ei ddiolch i swyddogion am eu gwaith gyda’r prosiectau ysgol.
- Bu i'r Cynghorydd Joan Butterrfield hefyd longyfarch swyddogion ar eu gwaith ar y Cynllun Cyfalaf. Yna nododd y Cynghorydd Butterfield y dylai Grwpiau Ardal yr Aelodau elwa o rai o’r arbedion. Gofynnodd am gael trafod hyn mewn gweithdy cyllido. Cafodd hyn ei eilio hyn gan y Cynghorydd Cefyn Williams

Nododd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, bod hwn wedi bod yn adroddiad hynod o gadarnhaol. Roedd penderfyniadau anodd wedi cael eu gwneud ac roedd y Cyngor wedi gwneud arbedion/toriadau o £28 miliwn. Roedd prosesau ariannol cryf yn eu lle ac roedd rheolaeth prosiect dda wedi galluogi buddsoddiad parhaol yn y gymuned.

***PENDERFYNWYD:***

(i) *Bod Aelodau yn nodi'r diweddaraf ar elfen Cynllun Cyfalaf 2015/16 a'r diweddariad ar brosiectau mawr.*

(ii) *Bod Aelodau yn cefnogi argymhelliad y Cabinet fel y manylir yn Atodiad 5 ac sydd wedi ei grynhoi yn Atodiad 6*

(iii) *Cymeradwyo Cynllun Cyfalaf 2016/17.*

**11 YSTYRIED Y STRATEGAETH GAFFAEL DDRAFFT DERFYNOL A CPR**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill Ddrafft Terfynol y Strategaeth Gaffael ac adroddiad CPRs (wedi ei ddosbarthu eisoes) ar gyfer eu cymeradwyo a'u mabwysiadu.

Roedd y Strategaeth Gaffael newydd wedi ei datblygu yn dilyn ymgynghori dwys. Roedd yn dilyn fformat dogfennau strategaeth eraill y Cyngor yn fras, ac roedd wedi ei gynllunio i fod yn fyr, o lefel uchel, ond yn gyflawnadwy. Roedd y Strategaeth yn cael ei chynnal gan saith egwyddor allweddol oedd i arwain yr holl weithgaredd caffael, oedd yn cynnwys dyletswyddau o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac anghenraid i sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i ffyniant economaidd lleol ym mhob penderfyniad prynu.

Mae gwaith datblygu'r Strategaeth Gaffael newydd a'r CPR's diwygiedig wedi cael ei arwain gan y Bwrdd Trawsnewid Caffael mewnol y mae ei aelodaeth yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Cafwyd cyfranogiad parhaus yn y datblygiad gan y Ffederasiwn Busnesau Bach, Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Busnes Cymru.

Roedd adroddiadau wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol, Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chyfarfod Briffio Cabinet. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phob Grŵp gwleidyddol a'r holl Arweinwyr Grŵp, cyfarfodydd unigol rheolaidd gyda budd-ddeiliaid mewnol allweddol a chynhaliwyd proses ymgynghori ffurfiol gyda budd-ddeiliaid mewnol ac allanol a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2015.

***PENDERFYNWYD*** *bod Aelodau yn:*

(i) *Cymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Gaffael*

(ii) *Cymeradwyo a mabwysiadu'r CPRs diwygiedig*

*Bydd y ddwy ddogfen yn "mynd yn fyw" ar 1 Ebrill 2016.*

**12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

***PENDERFYNWYD*** *– cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

**MATER BRYS**

Gofynnodd y Cynghorydd Joan Butterfield am ganiatâd y Cyngor dros absenoldeb y

Cynghorydd Ian Armstrong tan ddiwedd Mai 2016 oherwydd ei salwch diweddar.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd bod hyn oherwydd os nad yw Aelod yn mynychu cyfarfod o fewn chwe mis i ddyddiad y cyfarfod diwethaf iddynt fynychu, yna nad ydynt yn Aelod mwyach. Byddai absenoldeb y Cynghorydd Ian Armstrong yn cyrraedd cyfnod o chwe mis ar 7 Ebrill 2016. Gofynnodd y Cynghorydd Joan Butterfield am gymeradwyo'r absenoldeb fel nad oedd y rheol chwe mis yn berthnasol.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd Stuart Davies a'i eilio gan y Cynghorydd Cefyn Williams.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau yn cytuno'n unfrydol i gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Ian Armstrong tan ddiwedd Mai 2016.*

Ar y pwynt hwn, anfonwyd dymuniadau gorau at y Cynghorwyr Ian Armstrong a Peter Owen gan holl Aelodau'r Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm.**